

Rhoi datganoli cyllidol ar waith yng Nghymru (2019)

Mawrth 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**
Twitter: **[@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhoi datganoli cyllidol ar waith yng Nghymru (2019)

Mawrth 2019



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016 i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10, 18.11, 19 a 20 Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

O dan Reolau Sefydlog 19 ac 20, mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn cynnwys ystyried unrhyw adroddiad neu ddogfen a osodir gerbron y Cynulliad yn ymwneud â'r defnydd o adnoddau, neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae hyn yn cynnwys ymgymryd â gwaith craffu ar gyllideb y cyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

Ymhlith cyfrifoldebau'r Pwyllgor o dan Reolau Sefydlog 18.10 ac 18.11, mae goruchwyllo llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, fel y nodir yn Neddff Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried unrhyw gynigion ar gyfer datganoli pwerau cyllidol i Gymru a chynnydd yn hyn o beth, fel rhan o'i gyfrifoldebau.

Gall y Pwyllgor hefyd graffu ar ddeddfwriaeth a gyflwynwyd i'r Cynulliad.

Cadeirydd y Pwyllgor:



Llyr Gruffydd AC

Plaid Cymru
Gogledd Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Rhun ap Iorwerth AC

Plaid Cymru
Ynys Mon



Alun Davies AC

Llafur Cymru
Blaenau Gwent



Neil Hamilton AC

UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Mike Hedges AC

Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Rhianon Passmore AC

Llafur Cymru
Islwyn



Nick Ramsay AC

Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	5
Casgliadau ac argymhellion	6
1. Dull gweithredu'r Pwyllgor a'r cefndir.....	7
2. Awdurdod Cyllid Cymru.....	11
3. Cyfraddau Treth Incwm Cymru.....	16
Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar	21
Atodiad B: Rhestr o adroddiadau	22

Rhagair y Cadeirydd

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd cynnydd sylweddol o ran datganoli cyllidol yng Nghymru, ac mae'r Pwyllgor yn teimlo ei bod yn bwysig cydnabod y bu'r broses yn un gadarnhaol ar y cyfan.

Wrth i ni nesáu at ben-blwydd cyntaf gweithredu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi a'r Dreth Trafodiadau Tir, rydym yn falch o gydnabod y gwaith a wnaed i sicrhau bod y trethi hyn yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus.

Rydym yn cydnabod yn arbennig bod sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru yn effeithiol yn ffactor allweddol yn y llwyddiant hwn. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth fod nifer o staff ACC yn secondiadau, ac yn adroddiad cyfatebol y Pwyllgor y llynedd, codwyd pryderon gennym ynglŷn â chadw gwybodaeth ac arbenigedd ACC yn y dyfodol ac rydym yn cydnabod hwn fel maes lle y byddai'n ddefnyddiol derbyn diweddariadau blynyddol ar y camau sy'n cael eu cymryd i reoli hyn.

Mae cyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn ehangu'n sylweddol y gyfran o drethi a delir gan drethdalwyr Cymru ac a bennir yng Nghymru, ac mae'n foment allweddol o ran gweithredu datganoli cyllidol yng Nghymru. Roedd y Pwyllgor yn pryderu am y dystiolaeth, gan gynnwys adborth gan etholaethau a phleidlais ddangosol y Pwyllgor ei hun, a oedd yn awgrymu bod cyfran siomedig o uchel o'r boblogaeth nad oedd yn ymwybodol eto o'r ffaith bod cyfraddau treth incwm Cymru ar fin cael eu gweithredu.

Roedd dau faes lle roedd y costau terfynol yn dal heb eu datrys ac, er y croesewir y gwerthoedd dangosol a ddarperir, byddwn yn ystyried y costau terfynol cyn gynted ag y byddant ar gael.

Gwahoddwyd Ysgrifennydd Gwladol Cymru i fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor i ddarparu tystiolaeth, fel y'i gwahoddwyd ar gyfer ymchwiliad y llynedd, ac rydym yn siomedig iawn ynghylch diffyg ymgysylltiad yr Ysgrifennydd Gwladol unwaith eto ar y mater hollbwysig hwn. Mae treth incwm yn parhau i fod yn dreth y DU, hyd yn oed ar ôl cyflwyno'r Cyfraddau Cymreig, ac mae'n cael ei chasglu gan CThEM, Adran anweinidogol o Lywodraeth y DU, ac felly byddai tystiolaeth yr Ysgrifennydd Gwladol wedi bod o werth mawr.

Roedd cynnig yr Ysgrifennydd Gwladol i gwrdd ag Aelodau'r Pwyllgor yn unigol ac yn breifat yn arbennig o rwystredig gan ein bod yn credu y dylid gwneud newidiadau sydd mor arwyddocaol yn gyfansoddiadol drwy broses graffu gyhoeddus fanwl a thryloyw.

Casgliadau ac argymhellion

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn siomedig iawn ynghylch diffyg ymgysylltiad yr Ysgrifennydd Gwladol ar ddatganoli cyllidol yng Nghymru, sy'n fater cyfansoddiadol bwysig. Tudalen 10

Casgliad 2. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gwaith a wnaed i sicrhau bod Awdurdod Cyllid Cymru yn cael ei sefydlu'n llwyddiannus, gan arwain at weithredu Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi, ac mae'n canmol ymdrechion pawb a fu'n rhan o'r broses hon. Tudalen 15

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Bwrdd ACC ddarparu diweddariadau blynyddol mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu a'r camau sy'n cael eu cymryd i gadw gwybodaeth a phrofiad yn y sefydliad. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu'r diweddariadau blynyddol hyn hyd nes y penodir Prif Weithredwr parhaol. Tudalen 15

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad ar y costau terfynol i ddatgymhwyso Treth Dir y Dreth Stamp a'i chostau cysylltiedig yng Nghymru. Tudalen 15

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog roi diweddariad i'r Pwyllgor am y gwerthusiad ffurfiol o'r gweithgarwch cyfathrebu sydd wedi digwydd cyn gweithredu Cyfraddau Treth Incwm Cymru. Tudalen 20

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gostau gweithredu Cyfraddau Treth Incwm Cymru, gan gynnwys diweddariad ar weithredu a chadarnhau tâl costau gweithredu blynyddol CThEM. Tudalen 20

1. Dull gweithredu'r Pwyllgor a'r cefndir

Dull gweithredu'r Pwyllgor

1. Cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) ymchwiliad penodol byr i ystyried y cynnydd a wnaed o ran gweithredu datganoli cyllidol yng Nghymru. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd;
- Awdurdod Cyllid Cymru;
- Swyddfa Archwilio Cymru;
- Cyllid a Thollau EM.

2. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd i Ysgrifennydd Gwladol Cymru (yr Ysgrifennydd Gwladol) roi dystiolaeth i'r Pwyllgor, o ystyried ei ofyniad i adrodd yn flynyddol o dan adran 23 ar weithredu Deddf Cymru 2014 (y Ddeddf). Mae'r Pwyllgor yn siomedig bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi gwrthod y cais i roi dystiolaeth.

Y cefndir

3. Drwy Ddeddf Cymru 2014, datganolwyd rhai pwerau treth a benthyca i Gymru. Mae'r Ddeddf yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddeddfu mewn perthynas â Threth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Tirlenwi. Mae'r Ddeddf hefyd yn deddfu ar gyfer datganoli treth incwm i Gymru yn rhannol, drwy Gyfradd Treth Incwm Cymru.

4. Pasiwyd tair Deddf i Gymru mewn perthynas â Threthi Cymru;

- Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016;
- Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017;
- Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017.

5. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn cyflwyno adroddiad yn flynyddol ar y cynnydd a wnaed o dan Ran 2 (Cyllid) o'r Ddeddf. Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Phedwerydd adroddiad blynyddol gan Weinidogion Cymru ar weithredu Rhan 2 (Cyllid) o Ddeddf Cymru 2014, tra cyhoeddodd Llywodraeth y

DU Bedwerydd Adroddiad Blynyddol Llywodraeth y DU ar Gyflwyno a Gweithredu Rhan 2 (Cyllid) o Ddeddf Cymru 2014.

- 6.** Yn ogystal, ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) adroddiad, Datganoli Cyllidol yng Nghymru: trethi datganoledig a chyfraddau treth incwm Cymru.
- 7.** Aeth y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn fyw yng Nghymru ar 1 Ebrill 2018, ac maent yn cael eu gweinyddu a'u casglu gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC).
- 8.** O 6 Ebrill 2019, bydd Gweinidogion Cymru yn pennu cyfradd flynyddol o dreth incwm i'r rhai y nodwyd eu bod yn "drethdalwyr Cymreig", a fydd yn parhau i gael ei chasglu gan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'i dyrannu i Lywodraeth Cymru.
- 9.** Fel y nodir yn adran 116D o Ddeddf Cymru 2014, cafodd y penderfyniad cyntaf ar gyfradd Cymru ei basio gan y Cynulliad ar 15 Ionawr 2019¹. Gosodwyd y tair cyfradd yng Nghymru ar 10c, gan gadw cydraddoldeb â Lloegr.
- 10.** Yn ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2018, nododd SAC, ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, "mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi gweithio'n effeithiol hyd yn hyn i weinyddu trethi datganoledig yng Nghymru".²
- 11.** Ar gyfer CThEM, aeth ymlaen i ddweud: "mae gan Drysorlys Cymru drefniadau priodol ar waith i dderbyn sicrwydd ynghylch y ffordd y mae CThEM yn gweithredu cyfraddau treth incwm Cymru".³
- 12.** Mewn termau ehangach, dywedodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Rebecca Evans AC (y Gweinidog), wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, y bu'r trosglwyddiad yn llyfn, yn drefnus ac yn llwyddiannus yn y pen draw.⁴
- 13.** O ran cyfraddau treth incwm Cymru, dywedodd: "there have been some really important key delivery milestones that have been reached... there is still

¹ Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2019, Eitem 5

² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, AGR-LD12012, Archwilydd Cyffredinol Cymru - Datganoli Cyllidol yng Nghymru: trethi datganoledig a chyfraddau treth incwm Cymru, 20 Rhagfyr 2018

³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, AGR-LD12012, Archwilydd Cyffredinol Cymru - Datganoli Cyllidol yng Nghymru: trethi datganoledig a chyfraddau treth incwm Cymru, 20 Rhagfyr 2018

⁴ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2019, Paragraff 5

some work to go, I understand, on the technology side, but we are meeting the milestones that we had set out for that”.⁵

Ysgrifennydd Gwladol Cymru

14. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i glywed gan yr Ysgrifennydd Gwladol ynghylch ei rwymedigaethau i adrodd o dan adroddiad Cymru bob blwyddyn ar weithredu Rhan 2 o'r Ddeddf.

15. Gwrthododd yr Ysgrifennydd Gwladol gais y Pwyllgor i fynychu sesiwn dystiolaeth ffurfiol, ond cynigiodd gyfarfod ag aelodau'r pwyllgor yn unigol i drafod unrhyw bryderon penodol sy'n berthnasol i'r ymchwiliad. Mewn gohebiaeth, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol:

“It is my belief that it's appropriate that your committee formally scrutinises the Cabinet Secretary for Finance and Local Government [sic] in relation to these matters given the respective lines of accountability.”⁶

Barn y Pwyllgor

16. Mae'r dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor yn awgrymu y bu'r broses o weithredu datganoli cyllidol yng Nghymru, hyd yma, yn llwyddiannus i raddau helaeth. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod ei bod yn dal yn gynnar yn y broses, ond mae'n credu y dylid cydnabod y gwaith cadarnhaol a wnaed hyd yn hyn.

17. Mae'r Pwyllgor yn siomedig gyda'r Ysgrifennydd Gwladol am ei ddiffyg ymgysylltiad parhaus â'r Pwyllgor ar y pwnc hwn. Dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol mai Llywodraeth Cymru sy'n atebol. Fodd bynnag, mae Treth Incwm yn parhau i fod yn dreth yn y DU (ond gyda chyfraddau Cymru) felly mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn briodol i'r Ysgrifennydd Gwladol ateb cwestiynau ar y broses weithredu.

18. Roedd cynnig yr Ysgrifennydd Gwladol i gwrdd ag Aelodau yn unigol ac yn breifat, ond nid y Pwyllgor cyfan, yn rhwystredig iawn.

19. Mae gweithredu Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn un o'r newidiadau cyfansoddiadol mwyaf yng Nghymru, ac mae eu gweithredu'n llwyddiannus yn hynod bwysig. Yn ystod y broses o graffu ar gyllideb ddrafft y Pwyllgor 2019-20, cydnabu'r Pwyllgor y problemau a gafwyd yn yr Alban yn ystod eu cyfnod pontio i

⁵ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2019, Paragraff 83

⁶ Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, 14 Chwefror 2019 (Saesneg yn unig)

gyfradd treth incwm yr Alban.⁷ Mae'n hanfodol bwysig, nid yn unig bod Llywodraeth Cymru yn dysgu gwersi o'r hyn a ddigwyddodd yn yr Alban, ond bod angen sicrhau'r Pwyllgor y gall Llywodraeth y DU roi sicrwydd na fydd y problemau hyn yn digwydd yng Nghymru.

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn siomedig iawn ynghylch diffyg ymgysylltiad yr Ysgrifennydd Gwladol ar ddatganoli cyllidol yng Nghymru, sy'n fater cyfansoddiadol bwysig.

⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [CR-LD11905](#), Y Pwyllgor Cyllid – Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20, 27 Tachwedd 2018

2. Awdurdod Cyllid Cymru

Y cefndir

20. Sefydlwyd ACC gan Ddeddf Casglu a Rheoli Treth 2016, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2016. Mae ACC wedi cymryd cyfrifoldeb dros reoli a chasglu refeniw'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru o fis Ebrill 2018. Bwriad ACC yw:

- darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth am y trethi i drethdalwyr Cymru;
- datrys cwynion ac anghydfodau;
- hyrwyddo cydymffurfiaeth â'r trethi;
- lleihau'r achosion o osgoi talu treth ac osgoi treth;
- cefnogi datblygiad polisi treth Llywodraeth Cymru.

Gweithredu ACC

21. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn credu y bu'r broses o sefydlu ACC yn llyfn iawn ond cydnabu ei bod dal yn ddyddiau cynnar.⁸

22. Yn y lle cyntaf, amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru bod costau gweithredu ACC rhwng £4.9 miliwn a £6.4 miliwn ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2016-17 a 2018-19. Roedd y gyllideb ar gyfer y costau gweithredu wedi'i hailbroffilio, gyda chyfanswm cost amcangyfrifedig o £6.3 miliwn ar gyfer y cyfnod o ddwy flynedd rhwng 2016-17 a 2017-18. Nododd Swyddfa Archwilio Cymru fod y gost derfynol o weithredu ACC o fewn y gyllideb ddiwygiedig hon.⁹

23. Ailadroddodd Prif Weithredwr ACC, Dyfed Alsop, fod costau sefydlu ACC, a gwblhawyd ym mis Mawrth 2018, wedi dod o fewn y gyllideb ac y rhagwelir y bydd costau gweithredu ar gyfer 2018-19 yn dod o fewn y £6 miliwn a gyllidebwyd ar gyfer y flwyddyn.¹⁰

⁸ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2019, Paragraff 42

⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [AGR-LD12012](#), Archwilydd Cyffredinol Cymru - Datganoli Cyllidol yng Nghymru: trethi datganoledig a chyfraddau treth incwm Cymru, 20 Rhagfyr 2018

¹⁰ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Hydref 2018, Paragraff 110

24. Mae'r costau gweithredol ar gyfer 2019-20 yn ansicr ar hyn o bryd gyda'r Prif Weithredwr yn amlygu newidiadau i gostau pensiynau'r sector cyhoeddus, a fydd yn effeithio ar ACC.¹¹

25. O ran staffio, nododd SAC fod ACC wedi blaenoriaethu recriwtio staff allweddol, gan sicrhau bod yr holl rolau hanfodol yn cael eu llenwi cyn 1 Ebrill 2018.¹² Yn ystod proses graffu'r Pwyllgor, dywedodd SAC:

“What they've been very successful at is attracting good loan people in. I think they used some of the contacts they had to get the right expertise in for day one, and I think they filled all the posts they then advertised very efficiently. The number of people applying for those jobs has been very high, which shows the dynamic of the organisation, I'd say.”¹³

26. Dywedodd SAC y byddai'n her cadw rhai o'r staff sydd ar secondiad yn y tymor hir. Dywedodd SAC nad yw ACC wedi datrys hynny eto, ond mae'n rhywbeth y maent yn gweithio arno fel rhan o'u cynllun corfforaethol i wneud yn siŵr bod ganddynt gynlluniau ar waith i'w wneud.¹⁴

27. Cydnabu'r Gweinidog yr her o gadw staff a nododd fod angen sicrhau bod y staff hynny sy'n cael eu recriwtio yn cael eu datblygu ac yn cael y math o gymorth sydd ei angen arnynt er mwyn eu cadw yn y swyddi hynny.¹⁵

28. Dywedodd Cadeirydd ACC, Kathryn Bishop, fod y Bwrdd wedi sefydlu pwyllgor pobl sy'n canolbwyntio ar gynllunio olyniaeth ar draws y sefydliad gan roi sylw arbennig i'r bobl hynny sydd ar secondiad ac sydd â dyddiad pan fydd eu secondiad yn dod i ben.¹⁶

Treth Trafodiadau Tir

29. Roedd y dystiolaeth a glywodd y Pwyllgor ynghylch y pontio o drethi y DU i drethi Cymru ar 1 Ebrill 2018 yn gadarnhaol ar y cyfan. Nododd SAC:

¹¹ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Hydref 2018, Paragraff 112

¹² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [AGR-LD12012](#), Archwilydd Cyffredinol Cymru - Datganoli Cyllidol yng Nghymru: trethi datganoledig a chyfraddau treth incwm Cymru, 20 Rhagfyr 2018

¹³ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2019, Paragraff 28

¹⁴ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2019, Paragraff 33

¹⁵ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2019, Paragraff 43

¹⁶ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2019, Paragraff 227

“My summary would be that this has been a project extremely well managed and well delivered. The devolved taxes have been delivered as required. The work has come in within budget, and though along the way we have flagged some particular risks that we saw at the time, those have been well managed, and our advice and that of others has been acted upon.”¹⁷

30. Cadarnhawyd hyn gan CThEM a nododd ei fod wedi cael yr ymgysylltiad lleiaf posibl â rhanddeiliaid yn y cyfnod yn arwain at y cyfnod pontio, ac mai ychydig iawn o broblemau a fu gyda’r ffurflenni yn y cyfnod ar ôl pontio.¹⁸

31. Nododd y Gweinidog mai rheswm allweddol dros y trosglwyddiad esmwyth oedd y gwaith a wnaed gydag ystod eang o randdeiliaid i sicrhau bod y ffordd yr aethpwyd i’r afael â’r darn hwn o waith yn gynhwysol iawn.¹⁹

32. Mae Llywodraeth Cymru yn talu costau CThEM sy’n gysylltiedig â rhoi’r gorau i weithredu treth dir y dreth stamp yng Nghymru.

33. Pan ymddangosodd gerbron y Pwyllgor ym mis Hydref 2018, rhoddodd Jim Harra, (Dirprwy Brif Weithredwr ac Ail Ysgrifennydd Parhaol, CThEM) ddiweddariad i’r pwyllgor ynghylch y costau sy’n gysylltiedig â dod â threth dir y dreth stamp i ben:

“last December, I wrote to Mark Drakeford to say that they were going to be higher than we had initially anticipated, with an upper range of £2 million, and that remains our view of how much it’s going to cost. We expect to complete the work by January of next year, and it will come within that range that I said in that letter.”²⁰

34. Rhoddodd Jim Harra ddiweddariad pellach i’r Pwyllgor ym mis Ionawr 2019 ar statws y gwaith sy’n ofynnol i ddatgymhwyso’r dreth a’i chostau cysylltiedig:

“The work to transfer to the land transaction tax is almost complete. There’s one outstanding action that will be completed next month, which is to transfer data from the Welsh Revenue Authority to the Valuation Office Agency, to ensure that they’ve got a complete data set for their evaluation purposes for business rates et cetera. That is very nearly complete, and it should not affect the costs, which we are still

¹⁷ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2019, Paragraff 4

¹⁸ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2019, Paragraff 120

¹⁹ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2019, Paragraff 5

²⁰ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Hydref 2018, Paragraff 224

confident will come in within our revised estimate of between £1.75 million and £2 million.”²¹

35. Cadarnhaodd CThEM y byddai'r arbedion ar gyfer datgymhwyso trethi'r DU yn £172,473 y flwyddyn, a fydd yn cael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru.²²

Treth Gwarediadau Tirlenwi

36. Oherwydd y nifer cymharol fach o weithredwyr y Dreth Tirlenwi yr effeithir arnynt gan y newidiadau sy'n cael eu gweithredu, a'r ffaith mai ychydig iawn o newidiadau y mae angen eu gwneud i systemau CThEM, mae CThEM wedi cytuno na fydd unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â datgymhwyso'r Dreth Tirlenwi yng Nghymru yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru.

37. Nododd CThEM fod y gwaith o ddatgymhwyso treth tirlenwi y DU yng Nghymru wedi'i gwblhau.²³

Barn y Pwyllgor

38. Yn gyffredinol, mae'r Pwyllgor yn nodi y bu'r dystiolaeth mewn perthynas â sefydlu ACC a gweithredu Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwaredu Tirlenwi yn gadarnhaol iawn ar y cyfan. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod hyn yn bennaf oherwydd ymrwymiad ac ymroddiad y gweision sifil sy'n rhan o'r broses, ac mae'n canmol pawb a fu'n ymwneud â'r gwaith.

39. Wrth gydnabod y gwaith a wnaed i sicrhau bod ACC wedi'i sefydlu'n llwyddiannus, mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi bod ACC yn cadw nifer o staff ar secondiad o sefydliadau eraill, yn fwyaf nodedig y Prif Weithredwr. Er bod y Pwyllgor yn falch bod Bwrdd ACC yn cymryd camau i gryfhau'r broses o gynllunio olyniaeth, bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro'r mater hwn.

40. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod pwysau ariannol a allai fod wedi effeithio ar gyllideb ACC, yn enwedig y newid ym mhensiynau'r sector cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cydnabod, ers derbyn tystiolaeth, fod y Gweinidog wedi cadarnhau, mewn datganiad ysgrifenedig, y byddai cyllid ychwanegol yn cael ei

²¹ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2019, Paragraff 118

²² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [GEN:LD11969](#), Llywodraeth Cymru – Y pedwerydd adroddiad blynyddol gan Weinidogion Cymru ar weithredu Rhan 2 (Cyllid) o Ddeddf Cymru 2014, 11 Rhagfyr 2018

²³ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2019, Paragraff 118

ddarparu i sefydliadau'r sector cyhoeddus yn 2019-20 i dalu'r costau ychwanegol hyn.²⁴

41. Clywodd y Pwyllgor fod gwaith mewn perthynas â datgymhwyso'r Dreth Tirlenwi yng Nghymru wedi'i gwblhau, ac mae'r gwaith o ddatgymhwyso Treth Dir y Dreth Stamp bron â chael ei gwblhau, ac erbyn hyn bydd y costau terfynol yn hysbys. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad ar y costau terfynol hyn.

Casgliad 2. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gwaith a wnaed i sicrhau bod Awdurdod Cyllid Cymru yn cael ei sefydlu'n llwyddiannus, gan arwain at weithredu Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi, ac mae'n canmol ymdrechion pawb a fu'n rhan o'r broses hon.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Bwrdd ACC ddarparu diweddariadau blynyddol mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu a'r camau sy'n cael eu cymryd i gadw gwybodaeth a phrofiad yn y sefydliad. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu'r diweddariadau blynyddol hyn hyd nes y penodir Prif Weithredwr parhaol.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad ar y costau terfynol i ddatgymhwyso Treth Dir y Dreth Stamp a'i chostau cysylltiedig yng Nghymru.

²⁴ Llywodraeth Cymru, Rebecca Evans (Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd), [Dyrannu cyllid i ddiwallu costau ychwanegol pensiynau sector cyhoeddus Cymru yn 2019-20](#), Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 7 Mawrth 2019

3. Cyfraddau Treth Incwm Cymru

Y cefndir

42. Caiff Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) eu datganoli i Gymru ar 6 Ebrill 2019. Bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno gostyngiad o 10c ym mhob un o'r tair cyfradd treth incwm – y gyfradd sylfaenol, uwch ac ychwanegol – a delir gan drethdalwyr Cymru.

43. Ym mis Ionawr 2019, cytunodd y Cynulliad ar y cynnig i ychwanegu 10c yn ôl at gyfraddau gostyngol y DU,²⁵ sy'n golygu na fydd unrhyw newidiadau i lefelau cyffredinol Treth Incwm pan fydd CTIC yn cael eu gweithredu yng Nghymru ar gyfer 2019-20. Felly, bydd y rhai sy'n talu treth incwm yng Nghymru yn parhau i dalu'r un swm â phobl yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Gohebiaeth ar Gyfraddau Treth Incwm Cymru

44. Nododd SAC yn ei hadroddiad²⁶ fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu arolwg sylfaenol i asesu effaith ei chynllun cyfathrebu ar CTIC dros amser. Sefydlodd yr arolwg hwn linell sylfaen o ymwybyddiaeth o CTIC, yn seiliedig ar 1,006 o gyfweiliadau a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2018. Dangosodd y canlyniadau fod 24% o boblogaeth Cymru yn ymwybodol bod y gyfradd yn cael ei chyflwyno.

45. Pwysleisiodd y Gweinidog y byddai'r bleidlais hon yn cael ei defnyddio i fesur yr effaith y mae gohebiaeth Llywodraeth Cymru a gohebiaeth CThEM yn ei chael o ran codi ymwybyddiaeth, ymysg gweithwyr yn ogystal â chyflogwyr.²⁷

46. Mae Llywodraeth Cymru a CThEM yn cynnal ymgyrch gyfathrebu ar y cyd ar Gyfraddau Treth Incwm Cymru. Nododd y Gweinidog fod llythyrau hysbysu wedi cael eu hanfon [ym mis Tachwedd 2018] at tua dwy filiwn o drethdalwyr sy'n byw yng Nghymru, gan roi gwybod iddynt am y newid i CTIC.

47. Dywedodd y Gweinidog hefyd²⁸ y byddai gweithgaredd pellach er mwyn codi ymwybyddiaeth pobl eto a dywedodd bod gwaith yn mynd rhagddo, drwy

²⁵ Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2019, Eitem 5

²⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [AGR-LD12012](#), Archwilydd Cyffredinol Cymru - Datganoli Cyllidol yng Nghymru: trethi datganoledig a chyfraddau treth incwm Cymru, 20 Rhagfyr 2018

²⁷ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2019, Paragraff 109

²⁸ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2019, Paragraff 109

wefannau, y cyfryngau cymdeithasol ac ati. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai gwerthusiad o'r ymgyrch gyfathrebu yn digwydd yn fuan ar ôl Ebrill 2019.²⁹

48. Tynnodd CThEM sylw at yr angen i sicrhau bod modd cyrraedd pobl drwy amrywiaeth o gyfryngau oherwydd ei fod yn cydnabod na fyddai pob trethdalwr yng Nghymru yn defnyddio'r un ffynonellau, er enghraifft y cyfryngau cymdeithasol. O ganlyniad, mae CthEM a Llywodraeth Cymru yn ceisio nodi a oes angen gohebiaeth bellach i ymgysylltu â phob grŵp.³⁰

49. Cytunodd SAC fod strategaeth gyfathrebu ar gyfer CTIC yn ddull synhwyrol:

“I think the communication plan they've put in place seems reasonable to us, in terms of what they need to be telling people. There's still probably a wider education about how the taxes process works and how Wales is getting its own tax system working properly, but for WRIT I think it made sense what they were trying to do.”³¹

50. Dywedodd y Gweinidog y bydd gwerthusiad o'r ymgyrch gomisiynu yn digwydd drwy gydol y broses, ond y bydd gwerthusiad mwy ffurfiol o effeithiolrwydd hynny, gan ddefnyddio fframwaith gwerthuso Gwasanaeth Cyfathrebu'r Llywodraeth, a bydd hynny'n digwydd yn fuan ar ôl Ebrill 2019.³²

51. Gofynnwyd i CThEM sut roedd gwasanaethau dwyieithog yn cael eu darparu yng Nghymru, ac eglurodd Jim Harra fod gan CThEM wefan ddwyieithog a bod siaradwyr Cymraeg yn gallu gofyn am wasanaeth Cymraeg penodol.

“In the case of the Welsh rates of income tax, obviously, that is a specifically Welsh project, so we are trying to go beyond what we would normally do in our Welsh language scheme for that, hence the recent mailshot was bilingual, and we are working with the Welsh Government on what that communication strategy is. But when it is up and running and taxpayers are contacting us day in, day out, our approach will generally be to deal with them either in English or in Welsh, rather than bilingually.”³³

52. Yn dilyn y sesiynau tystiolaeth, cynhaliodd y Pwyllgor arolwg ar Twitter a Facebook. Gofynnodd y bleidlais a oedd trethdalwyr Cymru yn ymwybodol o

²⁹ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2019, Paragraff 110


³⁰ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2019, Paragraff 141

³¹ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2019, Paragraff 101

³² Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2019, Paragraff 110

³³ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2019, Paragraff 161

Gyfraddau Treth Incwm Cymru ar 6 Ebrill. Derbyniodd yr arolygon 356 o ymatebion ar draws y llwyfannau ac, o blith y rhain, roedd 246 (69%) yn ymwybodol bod CTIC ar fin cael ei chyflwyno, a 110 (31%) heb fod yn ymwybodol.



Costau Cyfraddau Treth Incwm Cymru a thaliadau Llywodraeth Cymru

53. Ym mis Hydref 2018, anfonodd Jim Harra, CThEM, lythyr at Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar y pryd, yn amlinellu'r costau gweithredu diweddaraf ar gyfer Cyfraddau Treth Incwm Cymru.³⁴ Roedd CThEM yn gallu mireinio ei amcangyfrif cychwynol o rhwng £5 miliwn a £10 miliwn i rhwng £7.5 miliwn a £9.5 miliwn. Darparodd CThEM amcangyfrif hefyd o'r costau gweithredu blynyddol o £319,000 y flwyddyn.

54. Pan ofynnwyd yn ystod y broses graffu a oedd yr amcangyfrifon costau wedi'u mireinio ymhellach, dywedodd Jim Harra o CThEM: "not at this stage. That continues to be the range and we're confident that it will come within that".³⁵

55. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn wynebu costau sy'n gysylltiedig â'r gyfradd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) sy'n ofynnol i sicrhau bod systemau TG perthnasol yn cael eu haddasu ar gyfer CTIC. Mae'r Adran wedi cadarnhau na fydd y costau hyn yn fwy na £200,000.³⁶

³⁴ Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, 25 Hydref 2018 (Saesneg yn unig)

³⁵ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2019, Paragraff 122

³⁶ Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, 25 Hydref 2018 (Saesneg yn unig)

56. Nododd pedwerydd adroddiad blynyddol Llywodraeth y DU ar gyflwyno a gweithredu Deddf Cymru 2014,³⁷ “hyd at 14 Rhagfyr 2018, mae CThEM wedi anfonebu Llywodraeth Cymru am £525,770 i roi CTIC ar waith”.

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Swyddfa Archwilio Cymru

57. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gyfrifol am adolygu gweithgareddau CThEM mewn perthynas â Chyfraddau Treth Incwm Cymru. Cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ei hadroddiad cyntaf ar weinyddu Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar gyfer 2017-18³⁸ ym mis Ionawr 2019, sy'n cynnwys gweithgareddau Cyllid a Thollau EM cyn cyflwyno CTIC.

58. Canfu'r adroddiad fod CThEM wedi cyflawni ei weithgareddau i gychwyn a chynllunio gofynion y prosiect a datblygu strategaethau llif gwaith ar gyfer gweithredu CTIC.

59. Gofynnwyd i SAC sut yr oedd yn gweithio gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ac meddai:

“Although it's different remits for both of us, I suppose it's aligning the way we were doing the work and sense checking some of the findings as well, making sure, where we were seeing the Welsh Treasury's aspect of it, they were seeing the HMRC aspect.”³⁹

Barn y Pwyllgor

60. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud i gyfleu'r newid i dreth incwm yng Nghymru, ond mae'n dal yn bryderus nad yw'r neges hon yn cael ei chlywed gan rai trethdalwyr yng Nghymru. Er ei fod yn cydnabod nad yw'r arolygon a gynhaliwyd gan y Pwyllgor ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddibynadwy, mae'n peri pryder nad oedd 31% o'r bobl a gwblhaodd yr arolygon yn ymwybodol o'r newid.

61. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gwaith a wnaed ar weithredu Cyfraddau Treth Incwm Cymru a'r costau sy'n gysylltiedig â hyn a byddai'n croesawu diweddariad ar y costau hyn.

³⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [GEN-LD11990](#), Pedwerydd Adroddiad Blynyddol Llywodraeth y DU ar Gyflwyno a Gweithredu Rhan 2 (Cyllid) o Ddeddf Cymru 2014, 12 Rhagfyr 2018

³⁸ Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, [Administration of Welsh Income Tax 2017-18](#), 24 Ionawr 2019

³⁹ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2019, Paragraff 80

62. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cydweithio sydd wedi digwydd rhwng y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a SAC ac yn gobeithio y bydd hyn yn parhau yn y dyfodol i fonitro gweithrediad Cyfraddau Treth Incwm Cymru.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog roi diweddariad i'r Pwyllgor am y gwerthusiad ffurfiol o'r gweithgarwch cyfathrebu sydd wedi digwydd cyn gweithredu Cyfraddau Treth Incwm Cymru.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gostau gweithredu Cyfraddau Treth Incwm Cymru, gan gynnwys diweddariad ar weithredu a chadarnhau tâl costau gweithredu blynyddol CThEM.

Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld [trawsgriafiadau](#) o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a sefydliad
9 Ionawr 2019	Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru Liz Matthews, Arweinydd Polisi a Chyflawni Treth Incwm
9 Ionawr 2019	Dyfed Alsop, Prif Weithredwr, Awdurdod Cyllid Cymru Kathryn Bishop, Cadeirydd, Awdurdod Cyllid Cymru
23 Ionawr 2019	Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru Richard Harries, Cyfarwyddwr, Archwilio Ariannol, Swyddfa Archwilio Cymru Gareth Lucey, Rheolwr Archwilio, Swyddfa Archwilio Cymru
23 Ionawr 2019	Jim Harra, Ail Ysgrifennydd Parhaol, Cyllid a Thollau EM Katy Peters, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trethi Personol, Dadansoddi a Gwybodaeth, a Phennaeth Proffesiwn (Economeg), Cyllid a Thollau EM.

Atodiad B: Rhestr o adroddiadau

Adroddiad

[Llywodraeth Cymru – Pedwerydd adroddiad blynyddol Gweinidogion Cymru ar weithredu Rhan 2 \(Cyllid\) o Ddeddf Cymru 2014](#)

[Archwilydd Cyffredinol Cymru - Datganoli Cyllidol yng Nghymru: trethi datganoledig a chyfraddau treth incwm Cymru](#)

[Pedwerydd Adroddiad Blynyddol Llywodraeth y DU ar weithredu Rhan 2 \(Cyllid\) o Ddeddf Cymru 2014](#)

[Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Gweinyddu'r Dreth Incwm yng Nghymru 2017-18](#)